



Annwyl bawb,

Fel rhan o'r adolygiad o gyflwyno cwrs Y Brifysgol Agored/SCILT yn 2019-20, rydym wedi cael rhywfaint o adborth gan athrawon sy'n astudio Tsieineeg Mandarin yn LXT197, a ddywedodd y canlynol wrthym:

- roedd yr iaith yn anodd ei dysgu
- roedd angen astudio tua 5 awr yr wythnos neu fwy
- nid oeddent bob amser yn cael y cyfle i gymhwyso eu sgiliau Tsieineeg newydd yn eu hystafelloedd dosbarth oherwydd y sefyllfa gwricwlaidd yn eu hysgol

Yn dilyn hyn, gwnaethom ymchwilio i'r cyfraddau cadw a chyrraedd ar y modiwl Tsieineeg a gwelsom fod 75% o'r athrawon a ddechreuodd bellach wedi cyflwyno eu hasesiad terfynol, ac 89% yw'r cyrraedd cyffredinol - sy'n uwch nag ar fodiwl safonol Tsieineeg Y Brifysgol Agored!

Mae hyn yn dangos i ni fod modd ymdopi â'r cwrs yn bendant a gall myfyrwyr ei astudio'n llwyddiannus iawn. OND - gan ystyried yr adborth, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech yn gallu rheoli disgwyliadau athrawon sy'n dangos diddordeb mewn astudio Tsieineeg ar y cwrs hwn.

Credwn y dylid cyfleu'r canlynol:

1. Mae Tsieineeg yn llawer anoddach i'w dysgu na'r rhan fwyaf o ieithoedd Ewropeaidd am ei bod yn wahanol iawn, nid yn unig o ran ynganiad, gramadeg a geirfa ond hefyd yn y ffordd y caiff ei hysgrifennu a'r ffordd y caiff yr iaith ei dehongli.
2. Am mai drwy sicrhau bod athrawon yn gallu cymhwyso eu sgiliau iaith newydd yn uniongyrchol yn eu hystafell ddosbarth y cyflawnir y cyrraedd gorau, dylai unrhyw un sydd am astudio LXT197 wneud yn siŵr bod ei ysgol yn ei gefnogi i allu addysgu'r iaith yn rheolaidd.
3. Wrth astudio Tsieineeg, dylai athro ddisgwyl neilltuo o leiaf 5 awr yr wythnos i astudio gweithgareddau elfen iaith y cwrs. Dylid atgoffa athrawon bod dysgu iaith yn fwy effeithiol wrth astudio ychydig bach ond yn aml yn hytrach na neilltuo diwrnodau cyfan. Mae hyn yn golygu y byddai hyd yn oed 30-40 munud y dydd yn gweithio'n dda.
4. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn astudio Tsieineeg geisio cael ymdeimlad o sut beth fyddai hyn ar ein cwrs. I wneud hynny, gallant gwblhau'r gweithgareddau am ddim ar ein llwyfan OpenLearn: <https://www.open.edu/openlearn/languages/chinese/beginners-chinese/content-section-0?active-tab=description-tab> Mae deunyddiau sy'n cwmpasu 6 awr astudio, a fydd yn rhoi argraff realistig i ddarpar fyfyrwyr o astudio'r iaith Tsieineeg yn null Y Brifysgol Agored.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth yn hyn o beth, a fydd yn ein helpu i sicrhau bod athrawon sy'n cofrestru ar LXT197 yn cael profiad astudio cadarnhaol a llwyddiannus.